
@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James



## Croeso i Dymor yr Haf

Er nad yw'r tywydd yn dangos hynny, mae bellach yn dymor yr haf! Croeso cynnes i ddisgyblion newydd y Meithrin sydd wedi cychwyn yn y prynhawniau yr wythnos hon. Croeso hefyd i'w teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n cychwyn fel rhieni yn yr Ysgol Gymraeg am y tro cyntaf. Tynnaf eich sylw at frawddeg olaf pob llythyr gen i – 'Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.' **Anogwn fod pob rhiant a gwarcheidwad yn cysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau.**

## Hanner tymor prysur i chwaraeon!

Os edrychwch chi ar y Calendr Hanner Tymor mi welwch fod yna nifer o weithgareddau chwaraeon yn digwydd yr hanner tymor hwn. Yn benodol – pêl-droed a phêl-rwyd i fechgyn a merched bl.5a6; a Thrawsgwlad i fl.3-6.
Yn naturiol, ar gyfer cymryd rhan mewn cystadlaethau'r Urdd a'r Cylch mae angen dewis timau i gynrychioli'r ysgol. Mi fyddwn yn gwneud hyn yn y modd mwyaf sensitif oherwydd gwyddwn fod plant yn siomi pan na chânt eu dewis i fod mewn tîm. Bwriadwn gynnal twrnamaint ychwanegol ar rai o'r diwrnodau hyn fel bod pob plentyn ym ml.5a6 yn cael cyfle i gynrychioli'r ysgol.
Cadwch lygad manwl ar Negeseuon yr Wythnos ar wefan yr ysgol – bydd yr ymarferion pêl-droed yn cael eu nodi yno (ar nos Iau am bythefnos) Mae'r ymarferion pêl-rwyd wedi cychwyn yn ystod amser cinio. Byddwn yn cynnal ymarferion rhedeg traws gwlad yn ystod oriau ysgol er mwyn paratoi'r disgyblion.

## Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Maldwyn 2024 (Hanner tymor Mai)

Mae gwefan yr Urdd yn cynnwys rhestr cystadlaethau pob dydd – cliciwch yma i ddarllen
Dyma restr o'n cystadlaethau ni:

### Diwrnod, amser a phafiliwn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dydd Llun : 27.05.2024** | 9:40 | Dawns Werin Bl.4 ac iau | (Pafiliwn Gwyn) |
| | 10:00 | Cân Actol Bl.6 ac iau | (Pafiliwn Gwyrdd) |
| | 13:00 | Cerddorfa/Band Bl.6 ac iau | (Pafiliwn Gwyrdd) |
| | 13:45 | Unawd Chwythbrennau Bl.6 | (Pafiliwn Coch) |
| | 13:55 | Perfformiad Theatrig o Sgript | (Pafiliwn Gwyrdd) |

- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dydd Mawrth : 28.05.2024** | 12:00 | Dawns Aml-gyfrwng Bl.6 ac iau | (Pafiliwn Gwyn) |
| | 15:00 | Unawd Pres Bl.6 ac iau | (Pafiliwn Coch) |
| | 16:05 | Unawd Llinynnol Bl.6 ac iau | (Pafiliwn Coch) |
| | 16:05 | Côr Bl.6 ac iau | (Pafiliwn Gwyrdd) |

- Mae AA Routeplanner yn amcangyfrif ei bod yn cymryd 1½ awr i gyrraedd Meifod o Aberystwyth.
- Bydd angen mwy o amser i deithio mewn traffig eisteddfod!
- Byddwn yn rhannu amseroedd a lleoliadau cyfarfod gyda chi yn nes at yr amser.

**Y Gymraeg**

Dyma'ch hatgoffa o hyn: mae'r dyddiad cau wythnos nesaf!

Eisteddfod Cardi-Iaith 😊

Gweler y posteri yma ar gyfer gweld y gwahanol gystadlaethau, o ffotograffiaeth i berfformio gydag anifail anwes!

Mae'r gwobrau yn hael hefyd - talebau o £10

Mae dwy ffordd o gystadlu – naill ai drwy dudalen Facebook Cardi-Iaith, neu drwy e-bost at Anwen.EleriBowen@ceredigion.gov.uk

Dyddiad cau : Ebrill 20fed 2024

Pob hwyl!







**Calendr Hanner Tymor**

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor] ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf**

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau hanner tymor ar ddydd Gwener y 24ain o Fai, ac yn ail-agor ar ddydd Llun y 3ydd o Fehefin.
Gwersi beicio Blwyddyn 6 – Mehefin 4ydd – 7fed.
Ffotograffau dosbarth gyda chwmni Tempest – Dydd Mercher 12fed o Fehefin.
Mabolgampau Ysgol – dydd Iau yr 20fed o Fehefin.
H.M.S – Bydd yr ysgol ar gau i blant er mwyn hyfforddi staff ar ddydd Gwener yr 28ain o Fehefin 2024.
Cynhelir Barbeciw y G.Rh.A ar noson olaf-ond-un tymor yr haf, sef Nos Iau y 18fed o Orffennaf.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**12/04/2024**
🖱 www.ysgolgymraeg.cymru


@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James



### *Welcome to the Summer Term*

*Despite the weather, it's now the summer term! A warm welcome to the new Meithrin pupils who have started in the afternoons this week. Welcome also to their families, especially those who start as parents at Ysgol Gymraeg for the first time. I would like to draw your attention to the last sentence of each letter from me - 'If you have any concerns about the welfare or educational development of your child then contact me immediately.' We encourage all parents and guardians to contact the school directly if you have any concerns or questions.*

### *A busy half term for sports!*

*If you look at the Half Term Calendar you will see that there are a number of sporting activities taking place this half term. Specifically – football and netball for boys and girls in yrs 5&6; and Cross Country for years 3-6.*
*Naturally, for taking part in Urdd and Aberystwyth Area competitions it is necessary to choose teams to represent the school. We will do this in the most sensitive way because we know that children are disappointed when they are not chosen to be in a team. We intend to hold an additional tournament on some of these days so that all children in years 5 and 6 have the opportunity to represent the school.*
*Keep a close eye on the Messages of the Week on the school website also - the football training sessions will be included here (on Thursday evenings for two weeks) The netball practices have started during lunchtime. We will hold cross country running exercises during school hours in order to prepare the pupils.*

### *Urdd National Eisteddfod, Maldwyn 2024 (May Half Term)*

*The Urdd website contains a list of each day's competitions - click here to read*
*Here is a list of our competitions:*

***Day, time and pavilion:***

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Monday : 27.05.2024*** | *9:40* | *Dawns Werin Bl.4 ac iau* | *(White pavilion)* | *- Folk dancing* |
| | *10:00* | *Cân Actol Bl.6 ac iau* | *(Green pavilion)* | *- Action Song* |
| | *13:00* | *Cerddorfa/Band Bl.6 ac iau* | *(Green pavilion)* | *- Orchestra* |
| | *13:45* | *Unawd Chwythbrennau Bl.6* | *(Red pavilion)* | *- Woodwind solo* |
| | *13:55* | *Perfformiad Theatrig o Sgript* | *(Green pavilion)* | *- Sketch* |
| ***Tuesday : 28.05.2024*** | *12:00* | *Dawns Aml-gyfrwng Bl.6 ac iau* | *(White pavilion)* | *- Multi-media Dance* |
| | *15:00* | *Unawd Pres Bl.6 ac iau* | *(Red pavilion)* | *- Brass solo* |
| | *16:05* | *Unawd Llinynnol Bl.6 ac iau* | *(Red pavilion)* | *- String solo* |
| | *16:05* | *Côr Bl.6 ac iau* | *(Green pavilion)* | *- Choir* |

- *AA Routeplanner estimates that it takes 1½ hours to reach Meifod from Aberystwyth.*
- *It will take longer to travel in eisteddfod traffic!*
- *We will share meeting times and locations with you nearer the time.*

***The Welsh Language***
*Here's a reminder the closing date for this is next week.*

*Cardi-Iaith Eisteddfod* 😊

*See the posters for different competitions, from photography to performing with a pet!*

*The prizes are generous too - vouchers of £10*

*There are two ways to enter – either through Cardi Iaith's Facebook page, or by email to Awen.EleriBowen@ceredigion.gov.uk*

*Closing date : April 20th 2024*







***Half Term Calendar***
*Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for* ***this half term****. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates for next half term***
*The school will close for half term holidays on Friday the 24th of May, and reopen on Monday the 3rd of June.*
*Year 6 cycling proficiency lessons – June 4th – 7th.*
*Class photos with Tempest – Wednesday 12th June.*
*School Sports Day – Thursday the 20th of June.*
*I.N.S.E.T – The school will be closed to children due to staff training on Friday the 28th of June 2024.*
*The PTA Barbeque will be held on the penultimate night of the summer term, which is Thursday the 18th of July.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***12/04/2024***
🖱 www.ysgolgymraeg.cymru